



Asiantaeth
Safonau
Bwyd
food.gov.uk

Gofynion labelu a gwybodaeth mewn perthynas ag alergenau bwyd

Canllawiau Technegol

Cyhoeddwyd: Mehefin 2020

Hanes diwygio

Diwygiad rhif	Dyddiad	Diben y diwygiad	Diwygiwyd gan
2	18 Mehefin 2020	Mae'r ddogfen gyflawn wedi'i diweddarau i fod yn gyson â fformat canllawiau diweddaraf yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB). Mae testun ac enghreifftiau ychwanegol wedi'u hychwanegu ar fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS) – yn benodol paragraffau 16 i 18, 86 i 99 a'r dudalen Cyfeiriadau ac Adnoddau. Hefyd, mae Paragraff 32 wedi'i ddiweddarau yn sgil Rheoliad 828/2014. Mae cyfeiriadau at yr Alban wedi'u dileu trwy'r ddogfen gyfan.	Tîm Alergeddau, Anoddefiadau a Gorsensitifrwydd i Fwyd
1	10 Ebrill 2015	Cyngor wedi'i ddiweddarau ym mharagraffau 1, 10, 14 – 20, 31, 33, 34, 36, 39, 40, 48 - 50, 52, 55, 56, 58, 59, 65, 66 (enghraifft), 72, 73, 74 – 76, 78, 79, 82, 83, 90 - 93, 95 – 98 a'r dudalen Cyfeiriadau ac Adnoddau	Cangen Alergeddau Bwyd

Crynodeb

Diben

Nod y cyhoeddiad hwn yw helpu busnesau bwyd i ddilyn gofynion labelu alergenau. Bydd hefyd yn helpu swyddogion bwyd awdurdodedig i orfodi'r mesurau hyn.

Statws cyfreithiol

Mae'r rhain yn ganllawiau arfer gorau a rheoleiddiol i gyd-fynd â darpariaethau alergenau Rheoliad yr Undeb Ewropeaidd (UE) ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr (Rheoliad (UE) Rhif 1169/2011) a Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd 2014 (OS 2014/1855) fel y'u diwygiwyd a Rheoliadau cyfatebol yng Nghymru, ac yng Ngogledd Iwerddon.

Ar gyfer pwy mae'r cyhoeddiad hwn?

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer:

- pob gweithgynhyrchwr, mewnofiwr a chynhyrchwr bwyd
- manwerthwyr, arlwywyr mawr a busnesau bwyd eraill
- pecynwyr
- awdurdodau gorfodi

I ba rai o Wledydd y DU y maent yn berthnasol?

- Cymru
- Lloegr
- Gogledd Iwerddon

Dyddiad adolygu

Byddwn yn adolygu'r canllawiau hyn cyn mis Rhagfyr 2021.

Geiriau allweddol

- Alergedd ac anoddefiad
- Labelu alergenau
- Bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw
- Bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw

Gofynion Gwybodaeth Labelu Alergenau Bwyd – Canllawiau Technegol yr ASB – Mehefin 2020

- Bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i' werthu'n uniongyrchol (PPDS)

Cynnwys

Hanes diwygio	2
Crynodeb	3
Diben	3
Statws cyfreithiol	3
Ar gyfer pwy mae'r cyhoeddiad hwn?	3
Cyflwyniad	6
Cynulleidfa darged	7
Diben y canllawiau	7
Statws cyfreithiol y canllawiau	7
Cefndir cyffredinol ar alergenau	8
Prif newidiadau o ran labelu alergenau	9
Rhwymedigaethau gorfodol ar bob gweithredwr busnes bwyd	10
Y pedwar alergen ar ddeg (alergenau Atodiad II)	11
Cynhwysion a chymhorthion prosesu sydd wedi'u heithrio o'r 14 alergen yn Atodiad II	12
Gwybodaeth wirfoddol (Erthygl 36)	13
Rhan 1: Canllawiau i fusnesau sy'n darparu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw	14
Rhan 2: Canllawiau i fusnesau sy'n darparu bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw	26
Rhan 3: Canllawiau i fusnesau sy'n darparu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol	33
Gorfodi'r mesurau	39
Cyfrifoldebau'r awdurdod lleol	39
Cosbau a throsteddau	39
Rhestr o dermau sy'n codi yn y canllawiau hyn	40
Cyfeiriadau ac Adnoddau	43
Deddfwriaeth Berthnasol	44
Adolygu	44
Manylion cysylltu	45

Cyflwyniad

1. Mae'r fframwaith deddfwriaethol sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth am alergenau bwyd wedi'i gynnwys i raddau helaeth yn Rheoliad (UE) Rhif 1169/2011 ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr (FIC). Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd 2014 (FIR) a rheoliadau cyfatebol yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon, yn sefydlu'r mesurau gorfodi. Mae'r FIC yn gosod dyletswydd ar fusnesau bwyd i sicrhau bod yr holl wybodaeth orfodol am alergenau bwyd (sy'n ymwneud â 14 o sylweddau a restrir yn y FIC y gwyddys eu bod yn achosi alergeddau) yn gywir, ar gael ac yn hygyrch i'r defnyddiwr. Mae'r FIC yn caniatáu i Aelod-wladwriaethau wahaniaethu rhwng bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw a bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw o ran sut dylid darparu gwybodaeth orfodol am alergenau i gwsmeriaid.
2. O dan y FIC, rhaid i fwyd sy'n cael ei becynnu ymlaen llaw, er enghraifft pryd parod a werthir mewn archfarchnad, gael ei labelu â chynhwysion llawn a rhaid pwysleisio unrhyw un o'r 14 alergen bwyd penodol sy'n bresennol mewn rhestr gynhwysion. Ar gyfer bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw, mae'r gofynion labelu alergenau yn wahanol. Mae unrhyw fwyd nad yw'n dod o fewn diffiniad y FIC o fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw yn fwyd heb ei becynnu ymlaen llaw. Mae hyn yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: fwyd heb ddeunydd pecynnu fel ffrwythau a llysiau rhydd, bara a werthir heb ei lapio mewn siopau bara a bwyd wedi'i becynnu ar y safle gwerthu ar gais y defnyddiwr.
3. Mae'r nodiadau canllaw hyn yn ymdrin â dehongli a chymhwyso darpariaethau alergenau ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw, bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw a bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS). Gall methu â chydymffurfio â'r darpariaethau alergenau arwain at gyflwyno rhybudd gwella i fusnes neu ddwyn achos troseddol yn erbyn busnes bwyd neu weithredwr busnes bwyd.
4. Nid yw'r canllawiau hyn yn ymdrin â gofynion labelu eraill (fel materion labelu cyffredinol eraill (fel gwlad tarddiad, briwrig, meintiau, ychwanegion, maeth ac ati).
5. Rhaid i unrhyw wybodaeth wirfoddol am fwyd gydymffurfio â gofynion Pennod V y FIC. Yn benodol, ni ddylai datganiadau gwirfoddol gamarwain defnyddwyr, ni ddylent fod yn amwys ac ni ddylent fod yn ddryslyd.

Arfer Gorau

Dim ond ar ôl asesiad risg ystyrion sy'n dangos risg sylweddol a real o groeshalugi y dylid defnyddio datganiadau gwirfoddol fel 'cynhyrchir mewn cegin sy'n defnyddio ...' neu 'gall gynnwys'. Ni ddylid eu defnyddio yn lle arferion hylendid a diogelwch da.

Cynulleidfa darged

6. Mae'r nodiadau canllaw hyn ar reolau FIC yr UE ar ddarparu gwybodaeth am alergenau wedi'u datblygu i helpu busnesau bwyd fel cynhyrchwyr, gweithgynhyrchwyr, pecynnwyr, mewnforywyr, dosbarthwyr, cyfanwerthwyr, manwerthwyr, arlwywyr, a hefyd ar gyfer swyddogion gorfodi er mwyn gallu gorfodi mesurau perthnasol.

7. Efallai y bydd gofyn i unigolion sydd¹, o bryd i'w gilydd, yn darparu bwyd mewn digwyddiadau elusennol neu sy'n gwerthu cacennau mewn digwyddiadau gwirfoddol, er enghraifft, ddilyn y gofynion cyfreithiol. Os ydych chi'n elusen neu'n ddarparwr bwyd cymunedol ac yn ansicr a ddylech fod wedi'ch cofrestru fel busnes bwyd, gallwch chi siarad ag adran iechyd yr amgylchedd eich awdurdod lleol. Mae canllawiau pellach hefyd ar gael yng nghanllawiau'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) ar ddarparu bwyd mewn digwyddiadau cymunedol ac elusennol sydd ar gael ar wefan yr ASB: <https://www.food.gov.uk/cy/safety-hygiene/darparu-bwyd-mewn-digwyddiadau-cymunedol-ac-elusennol>

Diben y canllawiau

8. Mae'r nodiadau canllaw hyn wedi'u datblygu i:

- Ddarparu canllawiau technegol nad ydynt yn rhwymol (*binding*) ar ddehongli a gweithrediad ymarferol gofynion penodol FIC yr UE ar labelu a gwybodaeth mewn perthynas ag alergenau
- Datblygu dealltwriaeth drwy ddarparu canllawiau rheoleiddio a dehongliadau yn y maes hwn.

Statws cyfreithiol y canllawiau

9. Mae'r nodiadau canllaw hyn wedi'u datblygu i ddarparu canllawiau ar:

- ofynion cyfreithiol Rheoliad (UE) Rhif 1169/2011 ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr a Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd 2014 (OS

¹ Gweler 'busnes bwyd' yn y Rhestr Termiau, diffiniad o 'busnes bwyd' yn Erthygl 3(2) o Reoliad 178/2002 (Cyfraith Bwyd Cyffredinol), Datganiad (9) o Destun Rhagarweiniol Rheoliad 852/2004 (Hylendid Bwyd gan gynnwys cofrestru busnesau bwyd) a Datganiad (15) o Destun Rhagarweiniol Rheoliad 1169/2011 (Labelu/Gwybodaeth am Fwyd).
Gofynion Gwybodaeth Labelu Alergenau Bwyd – Canllawiau Technegol yr ASB – Mehefin 2020

2014/1855) a'r Rheoliadau cyfatebol yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon²

- canllawiau ar arfer gorau. Nid yw'n ofyniad cyfreithiol i ddilyn canllawiau arfer gorau.

10. Efallai y bydd busnesau sydd ag ymholiadau penodol yn dymuno ceisio cyngor eu hasiantaeth orfodi leol, sef adran safonau masnach/iechyd yr amgylchedd yr awdurdod lleol fel arfer.

11. Ni all y canllawiau hyn ar y gofynion cyfreithiol drin a thrafod pob sefyllfa, ac efallai bod angen i chi ystyried y ddeddfwriaeth berthnasol dan sylw i weld sut y mae'n berthnasol i'ch sefyllfa chi. Bydd dilyn y canllawiau yn eich helpu i gydymffurfio â'r gyfraith. Nid yw'n ofyniad cyfreithiol i ddilyn canllawiau arfer gorau. Nodir yr holl ganllawiau ar arfer gorau mewn blychau cysgodol, gyda phennawd Arfer Gorau:

Arfer Gorau

Mae'r holl ganllawiau arfer gorau wedi'u nodi'n glir yn y ddogfen hon yn y fformat hwn.

12. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn defnyddio enghreifftiau ymarferol sy'n helpu i esbonio'r gofynion. Nodir pob enghraifft mewn blychau cysgodol, gyda phennawd Enghraifft.

Enghraifft

Mae'r enghreifftiau ymarferol wedi'u nodi'n glir yn y ddogfen hon yn y fformat hwn.

Cefndir cyffredinol ar alergenau

13. Mae gan 1-2% o boblogaeth oedolion y DU a 5-8% o blant yn y DU alergedd bwyd. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys pobl sydd ag anoddefiadau bwyd. Yn ogystal, amcangyfrifir bod gan 1 o bob 100 o bobl glefyd seliag, sy'n glefyd genetig ac hunan-imiwn a achosir drwy fwyta glwten, sef protein a geir mewn gwenith, rhyg a haidd.

² [Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd \(Cymru\) 2014 \(2014 Rhif 2303 \(W. 227\)\)](#) a [Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd \(Gogledd Iwerddon\) 2014 \(2014 Rhif 223\)](#)

Mae bwyta glwten yn sbarduno ymateb imiwn annormal sy'n arwain at ddifrod i leinin y perfedd a cham-amsugno gan achosi diffygion maethol a chymhlethdodau cysylltiedig.

14. Gall ychydig bach iawn o gynhwysyn bwyd y mae rhywun yn sensitif iddo achosi adwaith alergaidd (diferyn o laeth, y darn lleiaf o bysgnau (*peanut*) neu hadyn sesame neu ddau). Gall symptomau adwaith alergaidd amrywio o symptomau ysgafn, fel cosi o amgylch y geg a brech, a gallant waethygu yn symptomau mwy difrifol fel chwydu, dolur rhydd, trafferth anadlu ac o bryd i'w gilydd, anaffylacsis (sef sioc). Pan fydd pobl â chlefyd seliag yn bwyta dim ond y mymryn lleiaf o glwten, nid yw'r adwaith yr un peth ag adwaith alergaidd ac ni fyddant yn mynd i sioc anaffylactig, ond bydd yn arwain at symptomau. Mae'r symptomau hyn fel arfer yn cychwyn ychydig oriau ar ôl ei fwyta, a gall symptomau bara rhwng ychydig oriau a sawl diwrnod. Mae parhau i amlyncu (*digest*) glwten yn barhaus yn arwain at symptomau fel dolur rhydd, rhwymedd, diffygion maethol gan gynnwys anemia haearn, asid ffolig a B12 a chymhlethdodau cysylltiedig fel osteoporosis.

15. Nid oes ffordd o wella alergedd bwyd na chlefyd seliag. Yr unig ffordd i reoli alergedd bwyd a chlefyd seliag yw osgoi bwyd sy'n sbarduno'r ymateb imiwn annormal. Felly, mae'n bwysig iawn fod busnesau bwyd yn rhoi gwybodaeth gywir am gynhwysion alergenaidd mewn cynhyrchion i ddefnyddwyr er mwyn iddynt allu gwneud dewisiadau bwyd diogel.

Prif newidiadau o ran labelu alergenau

16. Ar hyn o bryd, a hyd at 1 Hydref 2021, gall busnesau bwyd ddarparu gwybodaeth orfodol am alergenau ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS) mewn unrhyw fodd y dymunant, gan gynnwys ar lafar gan aelod o staff. Mae marwolaethau parhaus a'r effaith ar iechyd y cyhoedd yn golygu bod darparu gwybodaeth am alergenau o ddiddordeb sylweddol i'r cyhoedd, gydag achosion unigol yn aml yn cael cryn dipyn o sylw yn y cyfryngau. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn nodi ei bod yn aml yn anodd i ddefnyddwyr wahaniaethu rhwng bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw a bwyd PPDS, a bod rhai defnyddwyr yn cymryd yn ganiataol bod absenoldeb gwybodaeth am alergenau ar ddeunydd pecynnu bwyd PPDS yn golygu nad oes alergenau bwyd wedi'u cynnwys yn y cynnyrch, p'un a yw hynny'n wir ai peidio.

17. Oherwydd y rhesymau hyn, mae deddfwriaeth wedi'i chyflwyno i ddiwygio'r FIR a deddfwriaeth gyfatebol yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon³ i wella'r wybodaeth

³ Bydd y FIR a deddfwriaeth gyfatebol yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon yn cael eu diwygio gan [Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd \(Cymru\) \(Diwygio\) \(Rhif 2\) 2020](#), [Rheoliadau Gwybodaeth Gofynion Gwybodaeth Labelu Alergenau Bwyd – Canllawiau Technegol yr ASB – Mehefin 2020](#)

a ddarperir i ddefnyddwyr sy'n prynu bwydydd PPDS. Bydd y newidiadau hyn yn gosod dyletswydd ar fusnesau bwyd i labelu bwyd PPDS gyda rhestr o gynhwysion sy'n cynnwys alergenau wedi'u pwysleisio. Bydd hyn yn sicrhau bod gwybodaeth am alergenau yn cael ei darparu yn unol â'r drefn labelu ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw, gan leihau dryswch defnyddwyr.

18. Er mwyn cydnabod y bydd angen amser ar fusnesau bwyd i addasu i'r newid hwn, bydd y newidiadau hyn yn dod i rym ar 1 Hydref 2021. Ystyriwyd bod y cyfnod gweithredu hwn yn angenrheidiol o ganlyniad i'r wybodaeth a gasglwyd gan fusnesau bwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar ddiwygio'r drefn ar gyfer darparu gwybodaeth am alergenau.

19. Nid yw'r newidiadau hyn yn effeithio ar ofynion FIR o ran gwybodaeth am alergenau mewn perthynas â mathau eraill o fwydydd sydd heb eu pecynnu ymlaen llaw, fel bwyd nad yw'n cael ei becynnu a bwyd sy'n cael ei becynnu ar gais y defnyddiwr. Mae hyn gan nad yw bwyd heb ei becynnu yn cynnwys unrhyw ddeunydd pecynnu er mwyn gallu rhoi label arno, ac mae'r llall yn cael ei becynnu o flaen y defnyddiwr ar ei gais. Mae'r newidiadau yn sicrhau bod gwybodaeth am alergenau yn cael ei darparu mewn ffordd gyson boed yn fwyd PPDS neu'n fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw.

Rhwymedigaethau gorfodol ar bob gweithredwr busnes bwyd

20. O dan Erthygl 9(1)(c) y FIC, rhaid i bob gweithredwr busnes bwyd ddatgan presenoldeb unrhyw un o'r 14 prif alergen a restrir yn Atodiad II i'r Rheoliad, p'un a yw'n cael ei ddefnyddio fel cynhwysyn neu fel cymorth prosesu. Esbonnir yn ddiweddarach yn y canllawiau hyn y ffyrdd y gellir cyflwyno'r wybodaeth orfodol hon ar gyfer bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw, bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw a bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS). Fodd bynnag, dylid nodi ym mhob achos, yn unol ag Erthyglau 12 a 13 o'r FIC, y dylai'r wybodaeth orfodol fod yn hygyrch, dylai fod mewn man amlwg lle gellir ei gweld yn hawdd a dylai fod yn bosibl ei darllen yn glir. Dylai gwybodaeth fod yn annileadwy (lle bo hynny'n briodol, er enghraifft ar labeli bwyd lle mae angen iddo allu wrthsefyll pobl yn trin a thrafod y pecyn). Ni ddylai'r wybodaeth fod wedi'i chuddio, ni ddylai fod mewn man lle na gellir ei gweld, ac ni ddylai fod mewn man lle gellir tynnu oddi wrthi neu ymyrryd â hi gyda deunydd ysgrifenedig, lluniau eraill nac unrhyw ddeunydd arall

[am Fwyd \(Diwygio\) \(Lloegr\) 2019](#) a [Rheoliadau Gwybodaeth Gwybodaeth am Fwyd \(Diwygiad Rhif 2\) \(Gogledd Iwerddon\) 2020](#).

sy'n ymyrryd. Rhaid i'r holl wybodaeth a ddarperir am alergenau fod yn gywir, sut bynnag y caiff ei darparu.

Y pedwar alergen ar ddeg (alergenau Atodiad II)

21. Mae'r 14 alergen a restrir yn Atodiad II (fel y'i diwygiwyd gan Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 78/2014) yn cael eu cydnabod ledled Ewrop fel y cynhwysion neu'r cymhorthion prosesu mwyaf cyffredin sy'n achosi alergeddau ac anoddefiadau bwyd. Os yw bwyd yn cynnwys neu'n defnyddio cynhwysyn neu gymorth prosesu i gynhyrchu neu baratoi'r bwyd sy'n deillio o un o'r sylweddau neu'r cynhyrchion a restrir yn Atodiad II a'i fod yn dal i fod yn bresennol yn y cynnyrch gorffenedig, rhaid darparu gwybodaeth am bresenoldeb neu ddefnydd o'r alergen hwn i'r defnyddiwr.

22. Dyma alergenau Atodiad II:

- Grawnfwydydd sy'n cynnwys gwenith (fel gwenith yr Almaen (spelt) a gwenith Khorasan), rhyg, haidd, ceirch a mathau cyfunol ohonynt a'u cynhyrchion, ar wahân i:
 - a) suropau glwcos seiliedig ar wenith gan gynnwys decstros
 - b) maltodecstrinau seiliedig ar wenith
 - c) suropau glwcos yn seiliedig ar haidd
 - d) grawnfwydydd a ddefnyddir i wneud distyllfeydd (*distillates*) alcoholig gan gynnwys alcohol ethyl o darddiad amaethyddol
- Cramenogion a chynhyrchion sy'n deillio ohonynt (er enghraifft corgimychiaid, cimychiaid, crancod a chimwch yr afon neu crayfish)
- Wyau a chynhyrchion wy
- Pysgod a'u cynhyrchion, ar wahân i
 - a) gelatin pysgod a ddefnyddir fel cludwr ar gyfer paratodau fitamin neu garotenoid
 - b) gelatin pysgod neu eisinglas a ddefnyddir fel asiant mireinio mewn cwrw a gwin
- Pysgnau a'u cynhyrchion
- Ffa soia a'u cynhyrchion, ar wahân i:
 - a) olew a braster ffa soia wedi'u puro'n llawn
 - b) tocopherolau cymysg naturiol (E306), tocopherolau D-alffa naturiol, asetad tocopherol D-alffa naturiol a tocopherol D-alffa naturiol yn crynhoi o ffynonellau ffa soia

- c) ffytosterolau ac esterau ffytosterol sy'n deillio o olewau llysiâu o ffynonellau ffa soia
- d) ester stanol planhigion a gynhyrchir o sterolau olew llysiâu o ffynonellau ffa soia
- Llaeth a chynhyrchion llaeth (gan gynnwys lactos), ar wahân i
 - a) faidd (*whey*) a ddefnyddir i wneud distyllfeydd alcoholig gan gynnwys alcohol ethyl o darddiad amaethyddol
 - b) lactitol
- Cnau (yn bennaf cnau almon, cnau cyll (hazelnuts), cnau Ffrengig (walnuts), cnau cashew, cnau pecan, cnau Brasil, cnau pistachio a chnau Macadamia (cnau Queensland)) a'u cynhyrchion ac eithrio cnau a ddefnyddir i wneud distyllfeydd alcoholig (er enghraifft gwirodydd fel fodca neu wisgi) gan gynnwys alcohol ethyl o darddiad amaethyddol
- Seleri a chynhyrchion seleri
- Mwstard a chynhyrchion mwstard
- Hadau sesame a'u cynhyrchion
- Sylffwr deuocsid a/neu sylffitau mewn crynodiadau o fwy na 10 mg/kg neu 10 mg/litr (o ran cyfanswm SO₂ sydd i'w gyfrifo ar gyfer cynhyrchion fel y cânt eu cynnig yn barod i'w bwyta neu fel y cânt eu hail-gyfansoddi yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr.)
- Bys y blaidd (lupin) a'i gynhyrchion
- Molysgiaid a'u cynhyrchion (er enghraifft cregyn gleision, cregyn Berffro (clams), wystrys, cregyn bylchog (scallops), malwod a sgwid)

23. Caniateir defnyddio eiconau neu symbolau i nodi presenoldeb alergenau cyn belled â bod geiriau a rhifau yn cyd-fynd â nhw i sicrhau dealltwriaeth gyson y defnyddiwr ac i osgoi ei gamarwain. Ar hyn o bryd nid oes un set o eiconau neu symbolau cytunedig ledled Ewrop ar gyfer nodi presenoldeb alergenau mewn bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw, bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw, a bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol.

Cynhwysion a chymhorthion prosesu sydd wedi'u heithrio o'r 14 alergen yn Atodiad II

24. Mae FIC yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth am bresenoldeb alergenau yn y bwyd terfynol gael ei darparu yn y modd a bennir gan y Rheoliad. Mae rhai cynhwysion a wneir o'r alergenau a restrir yn Atodiad II yn annhebygol o achosi adwaith alergaidd gan eu bod wedi'u prosesu cymaint (er enghraifft olew soia neu suropau glwcos gwenith wedi'u puro'n llawn). Y rheswm am hyn yw bod yr alergen/protein wedi'i dynnu allan a bod y cynnyrch wedi'i asesu gan

Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) fel un nad yw'n peri risg alergenau i'r defnyddiwr.

25. Nid oes rhaid datgan unrhyw sylweddau sy'n deillio o gynhwysyn alergenau, sydd wedi'u heithrio'n benodol rhag cael eu datgan o dan Atodiad II (er enghraifft surop glwcos gwenith) fel alergenau, er enghraifft olew soia sydd wedi'i buro'n llawn.

Gwybodaeth wirfoddol (Erthygl 36)

26. Rhaid i unrhyw wybodaeth wirfoddol am fwyd gydymffurfio â gofynion Pennod V y FIC sy'n nodi na ddylai gwybodaeth wirfoddol am fwyd gamarwain y defnyddiwr, rhaid iddi beidio â bod yn amwys neu'n ddryslyd, a lle bo hynny'n briodol, rhaid iddi fod yn seiliedig ar ddata gwyddonol. Gellid ystyried bod defnyddio labeli alergenau rhagofalus (*precautionary*) pan nad oes risg wirioneddol yn wybodaeth gamarweiniol am fwyd.

Arfer Gorau

Gall gweithredwyr busnesau bwyd ddefnyddio labelu gwirfoddol fel 'cynhyrchir mewn cegin sy'n defnyddio ...' neu 'gall gynnwys' neu 'ddim yn addas ar gyfer ...' i gyfleu'r risg o bresenoldeb anfwriadol alergen (er enghraifft, llaeth, wy, pysgnau, cnau almon) mewn cynnyrch bwyd gan ei fod wedi mynd mewn i'r cynnyrch yn ddamweiniol, neu drwy groeshalugi. Dim ond ar ôl cynnal asesiad risg ystyrlon ac ystyrir bod risg sylweddol a gwirioneddol i ddefnyddwyr sydd ag alergedd neu anoddefiad bwyd y dylid defnyddio'r datganiadau hyn, ac ni ddylid eu defnyddio yn lle arferion hylendid a diogelwch da.

Mae Food Drink Europe (FDE) wedi cynhyrchu canllawiau arfer gorau ar labelu alergenau rhagofalus yn wirfoddol:

www.fooddrinkeurope.eu/uploads/publications_documents/Guidance_on_Food_Allergen_Management.pdf

Rhan 1: Canllawiau i fusnesau sy'n darparu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw

27. Mae'r adran ganlynol yn darparu canllawiau ac enghreifftiau o gydymffurfio â darpariaethau'r FIC sy'n benodol i labelu alergenau ar gyfer bwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw. Mae hyn yn seiliedig ar yr erthyglau canlynol:

- Erthygl 9 ar y rhestr o fanylion gorfodol
- Erthygl 13 ar gyflwyno manylion gorfodol
- Erthygl 19 ar hepgor y rhestr gynhwysion
- Erthygl 21 ar labelu rhai sylweddau neu gynhyrchion sy'n achosi alergeddau neu anoddefiadau bwyd
- Erthygl 36 ar ofynion cymwys sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth wirfoddol am fwyd

Rhestr o fanylion gorfodol (Erthygl 9)

28. Isod, fe welwch ganllawiau ar gwmpas pob cynhwysyn alergenaid a nodwyd yn Atodiad II y FIC a sut y mae'n rhaid pwysleisio'r alergenau yn y rhestr gynhwysion.

Grawnfwydydd sy'n cynnwys glwten

29. Mae Atodiad II y FIC fel y'i diwygiwyd gan Reoliad (UE) Rhif 78/2014 yn diffinio'r rhain fel: gwenith fel gwenith yr Almaen a gwenith Khorasan), rhyg, haidd a cheirch neu eu straeniau hybrid. Mae gwenith yr Almaen a Khorasan yn fathau o wenith nad ydyn nhw'n amnewidion addas ar gyfer pobl â chlefyd seliag a/neu sydd ag alergedd i wenith.

30. Rhaid datgan grawnfwydydd sy'n cynnwys glwten yn y rhestr gynhwysion gan ddefnyddio enw penodol y grawnfwyd, hynny yw gwenith (fel gwenith yr Almaen neu Khorasan), rhyg, haidd neu geirch. Lle defnyddiwyd 'gwenith yr Almaen', 'Khorasan' a 'Kamut'; byddai angen cynnwys cyfeiriad penodol at wenith; er enghraifft 'gwenith yr Almaen (**gwenith**)' neu '**gwenith** Khorasan' a 'Kamut (**gwenith**)'.

31. Bydd angen pwysleisio cynhwysion sy'n rawnfwydydd sy'n cynnwys glwten neu sy'n deillio ohonynt yn y rhestr gynhwysion. Bydd hyn yn ei gwneud yn glir i'r rheini sydd ag alergedd i rawnfwydydd penodol osgoi bwyd o'r fath; er enghraifft: 'Startsh **gwenith** Codex'; 'echdyniad brag **haidd**'. Caniateir cynnwys y gair 'glwten' yn wirfoddol ar y rhestr gynhwysion yn dilyn y datganiad gorfodol o rawnfwyd penodol (sy'n cynnwys glwten), ond mae'r FIC yn ei gwneud yn ofynnol pwysleisio'r grawnfwyd, yn hytrach na'r glwten; er enghraifft '**haidd** (glwten)'.

Arfer Gorau

Mae'r Ffederasiwn Bwyd a Diod wedi cynhyrchu canllawiau arfer gorau yn y maes hwn: www.fdf.org.uk/corporate_pubs/FDF-gluten-labelling-guidance.pdf

32. Pan fo bwydydd wedi'u labelu'n wirfoddol fel rhai 'heb glwten' rhaid iddynt fodloni'r gofynion a nodir yn Rheoliad (UE) Rhif 828/2014⁴. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn nodi'r amodau y gellir labelu bwydydd fel “heb glwten” (dim mwy nag 20 mg/Kg yn y bwyd fel y'u gwerthir i'r defnyddiwr terfynol) neu “glwten isel iawn” (dim mwy na 100 mg/Kg o glwten yn y bwyd fel y'i gwerthir i'r defnyddiwr terfynol). Pan fydd cynnyrch sy'n cynnwys un o'r grawnfwydydd a grybwyllir yn Atodiad II (er enghraifft ceirch) ac sy'n cwrdd â gofynion perthnasol Rheoliad (UE) Rhif 828/2014, yna gellir defnyddio'r datganiad 'heb glwten' neu 'glwten isel iawn' ar y cynnyrch. Fodd bynnag, mae dal angen nodi a phwysleisio'r grawnfwyd a grybwyllir yn Atodiad II yn y rhestr gynhwysion. Mae'r rheolau hyn sy'n ymwneud â defnyddio'r termau “heb glwten” a “glwten isel iawn” yn berthnasol i bob bwyd gan gynnwys bwydydd heb eu pecynnu fel y rhai sy'n cael eu gweini mewn bwytai. Ni chaniateir unrhyw ddatganiadau eraill i ddisgrifio absenoldeb neu gostyngiad mewn presenoldeb glwten. Pan ddefnyddir ceirch heb glwten mewn cynnyrch heb glwten, byddai dal angen pwysleisio a datgan y gair "ceirch" yn unol ag Erthygl 21 a 9 (1) (c) o'r FIC.

Cramenogion (*crustaceans*)

33. Nid yw'r rheolau yn enwi unrhyw rywogaeth benodol o gramenogion sy'n golygu bod pob math o gramenogion wedi'u cynnwys (er enghraifft cimwch, corgimychiaid a langwstîn).

34. Rhaid i'r labelu ar gramenogion a chynhyrchion a wneir ohonynt gyfeirio'n glir at y bwyd yn Atodiad II; er enghraifft 'corgimychiaid (**cramenogion**)', 'cimwch yr afon (*crayfish*) (**cramenogion**)', 'cimwch (**cramenogion**)', 'past berdys (*shrimp paste*) (**cramenogion**)'.

Wyau

35. Nid yw'r rheolau yn enwi unrhyw rywogaeth o wyau, gan fod 'wyau' yn cyfeirio at wyau o bob aderyn, er enghraifft o ieir dodwy yn ogystal ag wyau o hwyaid, sofflieir

⁴ Gorfodir [Rheoliad \(UE\) Rhif 828/2014](#) yng Nghymru gan [Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd \(Cymru\) \(Diwygio\) 2016](#) ac yng Ngogledd Iwerddon gan y [Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd \(Diwygio\) \(Gogledd Iwerddon\) 2016](#)

(*quails*), gwyddau, gwyllanod ac ieir gini. Felly mae angen datgan pob wy wrth ei ddefnyddio fel cynhwysyn neu gymorth prosesu.

Pysgod

36. Nid yw'r rheolau yn enwi unrhyw rywogaeth o bysgod gan fod 'pysgod' yn golygu pob rhywogaeth o bysgod a chynhyrchion pysgod. Mae'r darpariaethau termau generig yn caniatáu i'r enw generig 'pysgod' gael ei ddefnyddio mewn rhestr gynhwysion dim ond lle nad oes cyfeiriad penodol at enw rhywogaeth pysgod gyffredin ar y label, er enghraifft stoc pysgod.

37. Mae angen i'r labelu ar gynhwysion neu gynhyrchion pysgod gyfeirio'n glir at y bwyd yn Atodiad II; er enghraifft, 'penfras (**pysgod**)', 'eog (**pysgod**)', 'tilapia (**pysgod**)' oni bai ei fod wedi'i eithrio (gweler tudalennau 10 i 11 am eithriadau).

Pysgnau (*peanuts*)

38. Er y cyfeirir at bysgnau yn aml hefyd fel cnau daear (sy'n gallu cael eu cymysgu â chnau wedi'u malu/cnau powdwr fel cnau almon neu gymysgedd o gnau a physgnau) neu gnau mwnci, rhaid defnyddio'r term pysgnau ar gyfer cynhyrchion neu gynhwysion a wneir ohonynt at ddibenion labelu alergenau, gan mai dyma'r term a bennir yn Atodiad II y FIC.

39. Rhaid labelu olew cnau daear wedi'i buro a heb ei buro gan gyfeirio at bysgnau.

Ffa soia

40. Mae termau fel 'soia' neu 'soi' yn ddigonol i nodi tarddiad ffa soia. Fodd bynnag, efallai nad adnabyddir bod termau llai cyffredin fel tofu neu edamame yn tarddu o soia ac mae angen nodi ei bresenoldeb clir ar gyfer cynhyrchion soia neu rai sy'n deillio ohono, er enghraifft tofu (**soia**) neu edamame (**soia**) oni bai ei fod wedi'i eithrio (gweler tudalennau 10 i 11 am eithriadau).

Llaeth

41. Nid yw'r rheolau yn enwi tarddiad llaeth o anifail gan fod y gair 'llaeth' yn cynnwys llaeth o famaliaid fel gwartheg, defaid, geifr a byfflo ac ati. Dylid nodi bod gan bob protein llaeth mamalaidd strwythur tebyg ac os oes gan rywun alergedd neu anoddefiad i laeth buwch, maent yn debygol o fod ag alergedd neu'n anoddefiad i laeth mamaliaid eraill. Felly mae angen datgan pob llaeth a chynhyrchion llaeth (gan gynnwys lactos) wrth eu defnyddio fel cynhwysyn neu gymorth prosesu, oni bai eu bod wedi'u heithrio (gweler tudalennau 10 i 11 am eithriadau).

42. Nid oes rhaid i gynhyrchion llaeth fel caws, menyn, llaeth wedi'i eplesu a hufen fod â rhestr gynhwysion lle nad oes cynhwysion eraill wedi'u hychwanegu, ar wahân

i asid lactig, ensymau bwyd a diwylliannau microbiolegol ac (yn achos caws) halen. Er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn dal i gael yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i nodi presenoldeb llaeth yn glir mewn achosion o'r fath, gellir defnyddio'r cyngor canlynol. Ystyrir bod defnyddio enwau gwerthu fel 'caws', 'hufen' 'menyn' ac 'iogwrt' yn cyfeirio'n glir at y llaeth oherwydd yn gyfreithiol, dim ond o laeth mamaliaid y gellir gwneud y cynhyrchion hyn (Rheoliad (UE) Rhif 1308/2013 ar drefniadaeth gyffredin y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol, gan gynnwys dynodiadau llaeth). Mewn achosion o'r fath, nid oes angen cyfeirio ymhellach at laeth gan fod y dynodiadau llaeth yn amddiffyn cynhyrchion o'r fath. Felly, gellir pwysleisio caws a hufen⁵ ar y cynhwysion i ddangos presenoldeb cynnyrch llaeth.

Arfer Gorau

Mae canllawiau Consortiwm Manwerthu Prydain yn darparu cyngor arfer gorau ar y maes hwn a dehongliad llythrennol o'r FIC lle mae gan bob cynnyrch llaeth gyfeiriad clir at laeth p'un a yw'n derm gwarchoddedig ai peidio (er enghraifft 'menyn' (**llaeth**)).

43. Fodd bynnag, rhaid i'r wybodaeth gyfeirio'n glir at laeth yn achos cynhyrchion llaeth llai cyfarwydd a ddefnyddir fel cynhwysion (er enghraifft, fromage frais, Mascarpone, Cantal, Quark) neu gynhyrchion sy'n cael eu gwerthu o dan enw nad yw'n cyfeirio'n glir at laeth. Rhaid datgan rhannau sy'n deillio o laeth, fel lactos, casein a maidd, gan gyfeirio'n glir at laeth, er enghraifft 'maidd (**llaeth**)'.

Cnau

44. Mae'r rheolau yn rhestru'r rhain fel: cnau almon, cnau cyll, cnau Ffrengig, cnau cashew, cnau pecan, cnau Brasil, cnau pistachio, cnau macadamia neu gnau Queensland a chynhyrchion wedi'u gwneud o'r cnau hyn. Rhaid rhestru a phwysleisio'r math o gnau yn y panel cynhwysion. Nid yw mathau eraill o gnau, a bwydydd eraill nad ydyn nhw'n gnau (er eu bod nhw'n cael eu galw'n gnau, hynny yw cnau castan (*chestnuts*), cnau pîn a chnau coco), wedi'u henwi yn y rheolau. Mae'n hysbys bod cnau castan, cnau pîn a chnau coco yn achosi alergedd mewn rhai pobl, ond nid oes rhaid eu pwysleisio yn y cynhwysion.

45. Pan ddefnyddiwyd cynhwysion neu gymhorthion prosesu sy'n deillio o gnau, rhaid nodi'r cynhwysyn gan gyfeirio'n glir at y gneuen; er enghraifft 'cyflasynnau

⁵ [Hysbysiad y Comisiwn ar sylweddau neu gynhyrchion sy'n achosi alergeddau neu anoddefiadau \(2017/C 428/01\)](#)

(cnau **almon**)' oni bai eu bod wedi'u heithrio (gweler tudalennau 10 i 11 am eithriadau).

Seleri

46. Defnyddir y term hwn yn gyffredinol yn y FIC i gyfeirio at ffyn seleri a gwreiddyn/cloron (*tuber*) seleri (sydd hefyd yn cael ei alw'n seleriac yn aml). Fodd bynnag, mae'r term yn cyfeirio at unrhyw ran o'r planhigyn seleri a ffurfiau eraill sy'n deillio ohono, fel deilen seleri, gwreiddyn seleri, hadau seleri, olew seleri, halen seleri, sbeis seleri, olew hadau seleri ac oleoresin hadau seleri (olew/echdyniad resin o seleri).

Mwstard

47. Mae'r term hwn yn cyfeirio at y planhigyn mwstard a chynhyrchion eraill sy'n deillio ohono, fel dail, hadau wedi egino, blawd mwstard, mwstard bwrdd, olewau mwstard, olewau hadau mwstard ac oleoresinau mwstard. Rhaid defnyddio'r termau priodol wrth labelu. Nid yw'r rheolau yn enwi unrhyw rywogaeth benodol o fwstard ac felly mae'n rhaid eu cymhwyso i bob math o fwstard.

Sesame

48. Mae'r term hwn yn cyfeirio at hadau sesame, powdr sesame mân ac olew sesame. Rhaid i gynhyrchion sy'n deillio o hadau sesame, fel tahini, gael eu labelu'n glir gan gyfeirio at sesame er enghraifft 'tahini (**sesame**)'. Nid yw'r rheolau yn enwi unrhyw rywogaeth benodol o hadau sesame, ac felly mae'n rhaid eu cymhwyso i bob math.

Sylffwr deuocsid a/neu sylffitau ar lefelau uwch na 10 mg/Kg neu 10 mg/litr

49. Mae'r rheolau labelu yn berthnasol i sylffwr deuocsid a/neu sylffitau sydd wedi'u hychwanegu'n fwriadol er enghraifft pan gânt eu defnyddio fel cyffeithydd (*preservative*) neu eu hychwanegu at gynhwysyn a ddefnyddir wrth baratoi'r bwyd. Mae'r rheolau yn ei gwneud yn ofynnol i sylffwr deuocsid a/neu sylffitau gael eu labelu pan fyddant yn bresennol uwchlaw 10 mg/Kg neu 10 mg/litr (wedi'u cyfrifo yn nhermau cyfanswm y sylffwr deuocsid (SO²)) yn y cynnyrch gorffenedig fel y caiff ei fwyta, hynny yw, wedi'i baratoi yn unol â chyfarwyddiadau'r cynhyrchwr. Ni all y dull dadansoddi ar gyfer sylffitau sylffwr deuocsid wahaniaethu rhwng y rhai sy'n bodoli'n naturiol yn y bwyd neu rai a gaiff eu hychwanegu fel cyffeithydd. Pan fo cyffeithyddion sylffwr deuocsid a/neu sylffit (hyd yn oed os yw'n cael ei drosglwyddo mewn cynhwysyn) wedi'u defnyddio a bod y lefelau yn y cynnyrch gorffenedig yn uwch na 10 mg/Kg neu 10 mg/litr, bydd angen ei ddatgan ar y label.

50. O dan ddeddfwriaeth ychwanegion bwyd gyffredinol, lle mae sylffwr deuocsid a/neu sylffitau wedi'u hychwanegu a bod ganddynt swyddogaeth dechnolegol yn y cynnyrch gorffenedig, rhaid cynnwys y swyddogaeth ac enw a/neu E-rif yr ychwanegyn – er enghraifft: 'Afal wedi'i Sychu, (Cyffeithydd: **sylffwr deuocsid**)'. Fodd bynnag, os mai dim ond yr E-rif sy'n cael ei ddarparu, rhaid darparu cyfeiriad clir at yr alergen fel ei fod yn hawdd i'r defnyddiwr ei ddeall. O dan ddeddfwriaeth labelu alergenau, pan fo sylffitau yn uwch na 10 mg/Kg/litr yn y cynnyrch gorffenedig, p'un a oes ganddynt swyddogaeth dechnolegol ai peidio, mae angen datganiad clir o sylffitau a/neu sylffwr deuocsid bob amser.

Enghraifft

Gellir defnyddio'r term 'sylffitau' hefyd fel term generig am y cynhwysyn hwn. At hynny, gan ddibynnu ar y sylffit penodol sy'n bresennol, gall yr enw cemegol gael ei ddefnyddio gyda'r elfen sylffit wedi'i phwysleisio, er enghraifft, 'sodiwm metabi**sylffit**'

51. Nid oes angen cyfeiriadau at sylffwr deuocsid a/neu sylffitau a ddefnyddir ac sy'n bresennol yn y cynnyrch gorffenedig (yn barod i'w fwyta neu wedi'i ailgyfansoddi yn unol â chyfarwyddiadau'r gweithgynhyrchwr) ar lai na 10 mg/Kg neu 10 mg/litr.

Bys y blaidd (*lupin*)

52. Defnyddir y term bys y blaidd neu lupin yn gyffredinol yn y FIC i gyfeirio at hadau bys y blaidd a chynhyrchion sy'n deillio ohono fel blawd bys y blaidd. Rhaid defnyddio'r termau priodol wrth labelu. Nid yw'r rheolau yn enwi unrhyw rywogaeth benodol o fys y blaidd ac felly mae'n rhaid eu cymhwyso i bob rhywogaeth.

Molysgiaid (*molluscs*)

53. Nid yw'r rheolau yn enwi unrhyw rywogaeth gan fod molysgiaid yn cynnwys pob math o folysgiaid (er enghraifft wystrys, sgwid, cocos, cregyn gleision, gwichiaid (*winkles*) a chregyn bylchog (*scallops*) yn ogystal â molysgiaid tir fel malwod).

54. Mae angen i labeli cynhwysion molysgiaid a chynhyrchion sy'n deillio o folysgiaid gyfeirio'n glir at y bwyd yn Atodiad II; er enghraifft, 'cregyn gleision (**molysgiaid**)', 'octopws (**molysgiaid**)', 'wystrys (**molysgiaid**)'.

Cyflwyno manylion gorfodol (Erthygl 13)

55. Mae manylion gorfodol yn golygu'r wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu. Rhaid i'r holl wybodaeth orfodol am alergenau ysgrifenedig fod yn hawdd ei gweld, yn gwbl

ddarllenadwy a heb ei chuddio mewn unrhyw ffordd. Rhaid peidio â chuddio gwybodaeth orfodol er enghraifft o dan fflap neu ar draws ran o'r deunydd pecynnu sydd wedi plygu neu grychu. Hefyd ni ddylai fod mewn man lle gellir tynni oddi wrthi neu ymyrryd â hi gyda deunydd ysgrifenedig, lluniau neu ddeunydd arall sy'n ymyrryd.

56. Ystyriwch a yw'r dull o bwysleisio

- Yn ddigon gweladwy
- Yn ddarllenadwy i'r rheini â nam ar eu golwg? Er enghraifft, ystyriwch unigolion sydd â dallineb lliw wrth ddefnyddio lliwiau cyferbyniol.
- Rhaid defnyddio isafswm maint ffont lle mae'n rhaid defnyddio uchder-x (fel y dangosir yn Atodiad IV o'r FIC) o 1.2 mm neu fwy lle mae'r arwyneb labelu yn 80 cm² neu fwy.
- Rhaid defnyddio maint ffont lleiaf lle mae'r uchder-x yn 0.9 mm neu fwy lle mae'r arwyneb labelu yn llai na 80 cm². Mae Ffigur 1 isod yn dangos sut mae uchder-x y ffont a ddefnyddir yn cael ei fesur.

Ffigur 1: Sut i fesur Uchder-x 1 (eich ffont)

x-HEIGHT



Legend

1	Ascender line
2	Cap line
3	Mean line
4	Baseline
5	Descender line
6	x-height
7	Font size

57. Pan fo arwynebedd mwyaf y deunydd pecynnu bwyd neu'r cynhwysydd yn llai na 10 cm² (er enghraifft un dogn sachet o saws), gellir hepgor y rhestr gynhwysion, ar yr amod bod yr wybodaeth am gynhwysion yn cael ei darparu trwy ddulliau eraill neu ei bod ar gael ar gais y defnyddiwr. Mewn achosion o'r fath, rhaid i bresenoldeb cynhwysion Atodiad II yn y bwyd gael ei nodi gan y gair 'Yn cynnwys ...' ac yna enw sylwedd neu gynnyrch (er enghraifft, Yn cynnwys: seleri, pysgod). Mae'r rheolau

maint ffont lleiaf hefyd yn berthnasol i wybodaeth orfodol arall fel y'i rhestrir yn Erthygl 9 (1) y FIC. Cyfeiriwch at Erthygl 13 y FIC i weld manylion pellach.

Hepgor y rhestr gynhwysion (Erthygl 19)

58. Pan fo enw'r cynnyrch yn cynnwys un cynhwysyn (er enghraifft, bag o bysgnau neu focs o wyau) ac yn cyfeirio'n glir at bresenoldeb sylwedd neu gynnyrch sy'n achosi alergedd, nid oes gofyn nodi presenoldeb y sylwedd neu'r cynnyrch o Atodiad II ymhellach. Felly, yn yr enghreifftiau hyn, ni fyddai angen i fag o bysgnau a bocs o wyau ddatgan presenoldeb pysgnau ac wyau yn y drefn honno. Fodd bynnag, lle nad yw enw'r bwyd yn cyfeirio'n glir at y sylwedd fel y'i henwir yn Atodiad II, rhaid darparu gwybodaeth am bresenoldeb y sylwedd hwnnw o Atodiad II yn y bwyd, a hynny yn y ffordd sy'n ofynnol ar gyfer y sylweddau hynny. Er enghraifft, olew sesame yw olew gingelly ac felly mae'n rhaid ei labelu 'Yn cynnwys: sesame'.

Labelu rhai sylweddau neu gynhyrchion sy'n achosi alergeddau neu anoddefiadau (Erthygl 21)

59. Mae Erthygl 21 yn nodi y bydd angen pwysleisio gwybodaeth orfodol am bresenoldeb cynhwysion Atodiad II sy'n achosi alergeddau o'i gymharu â'r cynhwysion eraill yn y rhestrau cynhwysion trwy gyfrwng ffont, maint, arddull neu liw cefndir cyferbyniol. Er enghraifft 'CYNHWYSION: Blawd **ceirch**, olew blodyn yr haul, corgimwch (**cramenogion**)'

60. Mae gan weithredwyr busnesau bwyd hyblygrwydd wrth benderfynu pa ddull pwysleisio i'w ddefnyddio i ddatgan presenoldeb alergenau.

Enghraifft

Gellid defnyddio datganiad cyngor alergedd ar label y cynnyrch i egluro sut mae alergenau yn cael eu pwysleisio yn y rhestr gynhwysion. Er enghraifft: 'Cyngor alergedd: ar gyfer alergenau, gweler y cynhwysion mewn **print trwm**' neu 'Cyngor alergedd: ar gyfer alergenau, gan gynnwys grawnfwydydd sy'n cynnwys glwten, gweler y cynhwysion sydd wedi'u hamlygu mewn **glas**.'

61. Mae angen datgan ffynhonnell alergenau ar gyfer pob cynhwysyn, hyd yn oed os oes sawl cynhwysyn o'r un bwyd alergenaid.

Enghraifft

Crynodiad **Llaeth** Sgim wedi'i Ailgyfansoddi'n rhannol, Siwgr, Olew Blodyn yr Haul, Powdwr maidd (**llaeth**), Decstros, Emwlsydd (Mono- a Di-Glyseridau Asidau Brasterog), Cyflasyn, Sefydlogwyr (Guar Gum, Sodiwm Alginate), Lliwiau (Betys Cochion, Beta-Caroten).

62. Os yw enw cynhwysyn yn rhannol yn cynnwys yr alergen o Atodiad II mewn un gair, gellir pwysleisio enw'r cynhwysyn sy'n cyfateb i fwyd Atodiad II. (Er enghraifft: gellir pwysleisio 'blawd **gwenith**' fel 'blawd **gwenith**' neu '**blawd gwenith**').

63. Pan fo cynhwysyn yn cynnwys sawl gair (fel 'powdr llaeth sgim' a 'gwynwy'), dim ond bwyd Atodiad II y mae'n rhaid ei bwysleisio (yn yr enghreifftiau hyn, 'powdr **llaeth** sgim' a 'gwynwy').

64. Os yw cynhwysion unigol a ddefnyddir i wneud bwyd yn cynnwys sylffwr deuocsid a/neu sylffitau ychwanegol, rhaid pwysleisio eu presenoldeb ar gyfer y cynhwysion hynny ar wahân os, wrth eu hadio gyda'i gilydd, yw'r lefel yn y bwyd cyffredinol yn >10 mg/Kg. Lle caiff bwydydd eu gwerthu o dan enw llai cyffredin, oherwydd teitl (*appellation*), enw masnach, bwyd tramor ac ati, gallai fod yn anodd dweud a ydyn nhw'n cynnwys unrhyw un o gynhyrchion/sylweddau Atodiad II (er enghraifft 'cnau mwnci (**pysgnau**)', 'olew gingelly (**sesame**)', 'ghee (**llaeth**)', 'ffa edamame (**soia**)'). Mewn achosion o'r fath, rhaid cyfeirio'n glir at enw'r sylwedd fel y'i rhestrir yn Atodiad II bob amser.

Cynhyrchion bwyd heb restrau cynhwysion

65. Nid oes angen rhestr gynhwysion ar rai bwydydd, fel diodydd alcoholig â mwy na 1.2% yn ôl cyfaint yr alcohol (gweler Erthygl 16 (4) y FIC). Yn yr achos hwn mae angen nodi presenoldeb unrhyw sylweddau neu gynhyrchion sy'n deillio o restr Atodiad II sy'n bresennol ac nad yw'n glir o enw'r bwyd. Er enghraifft, rhaid i botel o win fod â datganiad fel: 'Yn cynnwys: sylffitau, llaeth ac wy' os yw'r cynnyrch gorffenedig yn cynnwys sylffitau ar fwy na 10 mg/litr ac os oes modd canfod gweddillion llaeth neu wyau yn y gwin.

Enghraifft

Fodd bynnag, nid oes angen pwysleisio alergen(au) o fewn datganiad 'Yn cynnwys' ar gynhyrchion heb restrau cynhwysion. Gallwch ddewis pwysleisio'r alergenau i'w gwneud yn glir fod cynnyrch yn eu cynnwys yn wirfoddol (er enghraifft 'Yn cynnwys: sylffitau').

Gofynion perthnasol – gwybodaeth wirfoddol (Erthygl 36)

66. Pan ddarperir rhestr gynhwysion, nid yw'r FIC yn caniatáu defnyddio datganiadau cynghori alergenau yn wirfoddol fel 'Yn cynnwys: gwenith, wy a llaeth' i ailadrodd gwybodaeth orfodol am gynhwysion alergenau. Dim ond yn y fformat gorfodol y gellir cyflwyno gwybodaeth am alergenau fel cynhwysion (hynny yw, wedi'u pwysleisio yn y rhestr gynhwysion). Mae hyn er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno mewn un fformat cyson ar draws cynhyrchion bwyd.

Gwerthu o bell (Erthygl 14)

67. Mae angen i weithredwyr busnesau bwyd sy'n gwerthu bwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw trwy werthu o bell sicrhau bod yr un lefel o wybodaeth am alergenau ar gael i ddefnyddwyr ag y byddai ar fwyd sy'n cael ei brynu o amgylchedd manwerthu, er enghraifft ar eu gwefan neu yn eu catalog⁶. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth orfodol am alergenau ar gael cyn i'r cwsmer orffen prynu'r bwyd a phan gaiff y bwyd ei ddsbarthu. Ni ddylai rhifau ffôn a ddarperir gan weithredwyr busnesau bwyd sy'n galluogi defnyddwyr i gael gwybodaeth am alergenau ar lafar dros y ffôn olygu unrhyw gostau ychwanegol (hynny yw, rhaid i'r galwadau fod am ddim neu rai na ellir codi tâl amdanynt o dan gynlluniau galwadau cyfradd safonol). Nid yw'r rheol gwerthu o bell i ddarparu gwybodaeth cyn i'r cwsmer orffen prynu'r bwyd yn berthnasol i fwydydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw a werthir trwy beiriannau gwerthu.

⁶ Ar gyfer gwerthu bwyd wedi'i becynnu o bell, rhaid darparu gwybodaeth orfodol arall fel y'i rhestrir yn Erthygl 9 ac eithrio Erthygl 9 (1) (f)

Enghraifft

Un dull y gallai busnes ei ddefnyddio yw rhestru'r cynhwysion (gydag alergenau wedi'u pwysleisio mewn rhyw ffordd) ar y wefan lle mae'r cwsmer yn gweld y cynnyrch cyn ei brynu. Er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth hon ar gael i'r defnyddiwr pan gaiff y bwyd ei ddsbarthu, gallai ymddangos ar ddeunydd pecynnu'r bwyd.

Rhan 2: Canllawiau i fusnesau sy'n darparu bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw

68. Mae'r wybodaeth isod yn cynnwys canllawiau ac enghreifftiau o arfer gorau ar ddarparu gwybodaeth am gynhwysion alergenau ar gyfer bwyd heb ei becynnu (fel prydau bwyd sy'n cael eu gweini mewn bwyty neu gaffi) a hefyd bwyd a gaiff ei becynnu ar gais y defnyddiwr sy'n dod o dan yr un rheolau. Rhaid darparu gwybodaeth am bresenoldeb neu ddefnydd alergenau mewn bwyd mewn modd sy'n hygyrch i'r defnyddiwr. Mae'r gofynion yn seiliedig ar yr erthyglau canlynol:

- Erthygl 8 ar gyfrifoldebau
- Erthygl 9 ar y rhestr o fanylion gorfodol (gweler tudalennau 10 i 11 i weld y rhestr o 14 alergen)
- Erthyglau 12 a 13 ar argaeledd a chyflwyniad manylion gorfodol
- Erthygl 21 ar labelu rhai sylweddau neu gynhyrchion sy'n achosi alergeddau neu anoddefiadau
- Erthygl 44 ar fesurau cenedlaethol ar gyfer bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw
- Erthygl 14 ar werthu o bell

Cyfrifoldebau (Erthygl 8)

69. Mae pob gweithredwr busnes bwyd yn y gadwyn cyflenwi bwyd yn gyfrifol am sicrhau bod yr wybodaeth am alergenau maen nhw'n ei darparu yn gywir. Ni ddylent gyflenwi bwyd y maent yn gwybod neu'n tybio nad yw'n cydymffurfio â gofynion gwybodaeth am fwyd.

Arfer gorau

Dylai busnesau adolygu gwybodaeth am gynhwysion ar gyfer y bwyd sy'n cael ei ddarparu ganddynt a sicrhau bod eu cyflenwyr yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol iddynt i gyflawni eu rhwymedigaethau.

70. Rhaid i fusnesau bwyd sy'n cyflenwi bwyd i fusnesau bwyd eraill nad yw wedi'i fwriadu ar gyfer y defnyddiwr terfynol a/neu nad yw wedi'i fwriadu ar gyfer arlwywyr mawr sicrhau bod y bwyd yn cael ei werthu gyda digon o wybodaeth i alluogi busnesau bwyd dilynol i gyflawni eu cyfrifoldebau. Rhaid i weithredwyr busnesau bwyd nad yw eu gweithgareddau'n effeithio ar wybodaeth am fwyd beidio â chyflenwi bwyd y maent yn gwybod neu'n tybio nad yw'n cydymffurfio â gofynion gwybodaeth am fwyd. Mae gweithredwyr busnesau bwyd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r darpariaethau sy'n berthnasol i'w gweithgareddau a gwirio bod y gofynion hynny'n

cael eu bodloni. Mae hyn yn berthnasol i bob gweithredwr gan gynnwys: gweithgynhyrchwyr, cyflenwyr ac arlwywyr.

Cyflwyno gwybodaeth orfodol am alergenau (Erthyglau 9, 12, 13 a 21)

71. Gellir cyfleu gwybodaeth am alergenau ar gyfer bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw trwy amryw ddulliau i weddu i fformat busnes gweithredwr y busnes bwyd dan sylw. Y gofyniad yw darparu gwybodaeth am ddefnyddio cynhwysion alergenaid mewn bwyd. Nid yw'r ddarpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol i fusnes bwyd ddarparu rhestr lawn o gynhwysion. Pan fydd busnes bwyd yn dewis peidio â darparu'r wybodaeth hon ymlaen llaw mewn fformat ysgrifenedig (er enghraifft gwybodaeth am alergenau ar y fwydlen), rhaid i'r busnes bwyd ddefnyddio cyfeiriadau clir i gyfeirio'r cwsmer i'r man lle y gall ddod o hyd i'r wybodaeth hon, fel gofyn i aelodau staff. Mewn sefyllfaoedd o'r fath rhaid cael datganiad y gellir ei weld ar fwydlenni bwyd, byrddau sialc, tocynnau archebu bwyd, labeli bwyd (gweler Rheoliad 5 (4) y FIR).

72. Mewn sefyllfa busnes gyrru drwodd (*drive through*) caniateir defnyddio arwyddion sy'n dangos bod gwybodaeth lafar ar gael trwy aelod o staff mewn man arall ar y safle.

73. Dylai'r holl wybodaeth orfodol am alergenau ar fwydlenni neu ddatganiadau cyfeirio i ddangos lle y gellir dod o hyd i'r wybodaeth hon fod ar gael yn hawdd ac yn amlwg, a dylai fod yn gwbl ddarllenadwy i'r cwsmer terfynol, p'un a oes ganddynt alergedd bwyd ai peidio.

Enghraifft

[Gellid cyflwyno cyfeiriadau at ble mae modd dod o hyd i wybodaeth am alergenau fel datganiad](#) tebyg i:

'Alergeddau ac anoddefiadau bwyd: Siaradwch â'n staff am y cynhwysion yn eich pryd bwyd wrth archebu.'

74. Rhaid i wybodaeth am alergenau ar gyfer y grawnfwydydd hynny sy'n cynnwys glwten a enwir yn Atodiad II ac ar gyfer y cnau a restrir yn Atodiad II nodi'r grawnfwyd (er enghraifft Gwenith) neu'r gneuen (er enghraifft Cnau almon) a restrir yn Atodiad II. Mae hyn gan fod yna bobl a allai fod ag alergedd neu sensitifrwydd i un math o rawnfwyd neu un math o gneuen yn unig, ac nid pob grawnfwyd na phob math o gnau.

75. Nid oes angen darparu manyleb ar gyfer pysgod, molysgiaid na chramenogion pan gânt eu defnyddio fel cynhwysion mewn pryd gan nad oes rhestr ddynodedig ar gyfer y grŵp hwn o fewn y rhestr yn Atodiad II.

76. Rhaid sicrhau bod gwybodaeth am gynhwysion sy'n alergenau ar gael ar gyfer y pryd cyfan fel y caiff ei weini. Fodd bynnag, gellir ei darparu mewn sawl ffordd.

77. Pan ddarperir bwyd fel 'bwffe', dylid darparu'r wybodaeth am alergenau ar gyfer pob eitem fwyd ar wahân.

Enghraifft

Gellid darparu gwybodaeth am alergenau fel datganiad 'Yn cynnwys', er enghraifft 'Cyw Iâr Tikka Masala (Yn cynnwys: Ilaeth, cnau (almon))'. Dull arall fyddai defnyddio siart fel yr enghraifft isod:

Arfer Gorau														
Ffigur 2: Enghraifft matrices alergenau 1														
Prydau / Alergenau wedi'u cynnwys	Grawnfwydydd yn cynnwys glwten	Cramenogion (crustaceans)	Wyanu	Pysgod	Pysgnau (peanuts)	Ffa soia	Ilaeth	Cnau	Seleri	Mwstard	Sesame	Syffritau	Bys y blaidd (lupin)	Molysgiaid (molluscs)
Korma Cyw Iâr							Oes	Oes Cnau almon						
Risotto Bwyd Môr		Oes		Oes			Oes		Oes					Oes
Selsig Sir Morgannwg a stwnsh tatws mwstard	Oes Gwenith						Oes		Oes	Oes				
Reis wedi'i ffrio	Oes Gwenith		Oes			Oes								
Cacen gaws lemon	Oes Gwenith		Oes				Oes	Oes Cnau almon			Oes			

78. Pan fydd bwyd yn cael ei roi ar y farchnad gan fusnes bwyd yn rhad ac am ddim (fel tameidiau i'w profi a samplau, canapés sy'n cael eu gweini mewn digwyddiadau) neu fel byrbrydau neu brydau bwyd am ddim (fel plât o fisgedi, teisennau neu siocledi heb eu lapio mewn gwesty, neu bryd a gaiff ei weini mewn digwyddiad), rhaid darparu gwybodaeth am gynhwysion sy'n cynnwys alergenau. Rhaid darparu'r wybodaeth hon yn ysgrifenedig neu gyfeirio at ble y gellid ei chael, er enghraifft trwy aelod o staff ar label, bwydlen neu docyn.

Arfer Gorau

Gellid darparu gwybodaeth am alergenau ar gyfer y gwahanol elfennau mewn pryd yn wirfoddol i roi gwell gwasanaeth a dewis i'r defnyddiwr.

Er enghraifft Byrgyr Cyw Iâr Barbeciw a coleslaw (Cyw iâr: **gwenith, pysgod, seleri**; saws barbeciw: **seleri, pysgod**; Rhôl fara: **gwenith, wyau a sesame**; Coleslaw; **wy, seleri, mwstard**).

Pe bai gan gwsmer alergedd i fwstard er enghraifft, gallai'r pryd gael ei weini heb y coleslaw.

Mesurau Cenedlaethol (Erthygl 44)

79. Er mwyn caniatáu ar gyfer anawsterau ymarferol, fel sicrhau bod bwydlenni ysgrifenedig yn cael eu diweddarau ac arddangos gwybodaeth gywir am gynhwysion alergenaid a ddefnyddir mewn cynhyrchion, mae gan weithredwyr busnesau bwyd hyblygrwydd i ddarparu gwybodaeth am alergenau ar gyfer bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw ar lafar. Mewn achosion o'r fath, rhaid i gwsmeriaid allu cael gwybodaeth gan aelod(au) staff.

80. Fodd bynnag, bydd angen i fusnesau sy'n mabwysiadu'r dull hwn sicrhau bod rhybudd ysgrifenedig, bwydlen, tocyn neu label sy'n amlwg i'w weld ar y pwynt y mae'r cwsmer yn dewis ei fwyd i nodi bod gwybodaeth am alergenau ar gael gan aelod o staff.

81. Felly mae'n rhaid i weithredwyr busnesau bwyd sy'n dewis darparu gwybodaeth am alergenau ar lafar sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir ar lafar gan aelodau staff yn gywir.

82. Er mwyn sicrhau bod modd gwirio gwybodaeth lafar, gellir cynnwys gwybodaeth am gynhwysion ar siart, mewn llyfr ryseitiau neu ar daflenni gwybodaeth am gynhwysion, y gall staff gyfeirio atynt yn hawdd.

Arfer Gorau

Mae aelodau staff yn cael hyfforddiant ar alergenau, yn gwybod ble i ddod o hyd i wybodaeth am alergenau ac yn gwybod sut i gyfleu hyn i gwsmeriaid.

Gwerthu o bell (Erthygl 14)

83. Mae'n rhaid i weithredwyr busnesau bwyd sy'n gwerthu bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw trwy werthu o bell⁷ (er enghraifft, busnesau bwyd sy'n gwerthu dros y ffôn/rhyngwyd) sicrhau bod gwybodaeth orfodol am alergenau ar gael i'r defnyddiwr (am ddim):

- cyn i'r cwsmer orffen prynu'r bwyd;
- wrth i'r bwyd gael ei ddsbarthu.

Arfer Gorau

Mae'r busnes yn cadw'r wybodaeth am alergenau ar ffurf ysgrifenedig ac mae hi ar gael yn ysgrifenedig ar ryw bwynt rhwng yr adeg y bydd defnyddiwr yn gosod yr archeb a'r adeg y bydd yr archeb yn cael ei dosbarthu iddynt.

84. Beth bynnag yw'r dull cyflwyno a ddewisir, rhaid i weithredwr y busnes bwyd sicrhau bob amser bod yr wybodaeth am alergenau yn gyfredol ac yn gywir.

85. Rhaid darparu'r wybodaeth am alergenau heb i weithredwr y busnes bwyd godi unrhyw gostau ychwanegol ar y cwsmer (er enghraifft, rhifau ffôn premiwm).

⁷ Nid yw sgriniau archebu electronig mewn bwytai a sgriniau archebu mewn safleoedd gyrru drwedd yn ffordd o 'gyfathrebu o bell' oherwydd bod y cyflenwr a'r defnyddiwr yn bresennol ar yr un pryd. Gofynion Gwybodaeth Labelu Alergenau Bwyd – Canllawiau Technegol yr ASB – Mehefin 2020

Enghraifft

Ymhlith y ffyrdd o ddarparu gwybodaeth am alergenau ar y pwynt archebu mae:

- cyfeirio'r cwsmer at ble y gall ddod o hyd i'r wybodaeth gywir yn ysgrifenedig (er enghraifft, bwydlen ar-lein); neu
- staff i ddarparu'r wybodaeth am alergenau ar lafar dros y ffôn wrth gyfeirio at yr wybodaeth ysgrifenedig.

Er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gyfredol a chywir am alergenau yn cael ei darparu, gallai'r busnes bwyd ofyn i'r cwsmer a oes angen gwybodaeth am alergenau cyn cymryd yr archeb dros y ffôn neu ar-lein.

Mae ffyrdd o ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig am alergenau ar yr adeg dosbarthu yn cynnwys:

- gosod sticeri ar gynwysyddion bwyd i nodi'n glir y bwyd a'r cynhwysion alergenaidd a ddefnyddiwyd yn y bwyd hwnnw (er enghraifft Cyw iâr satay: 'Yn cynnwys: gwenith, soi, pysgod, pysgnau'); neu
- darperir bwydlen gyda'r archeb sy'n caniatáu i'r cwsmer nodi cynhwysion alergenaidd yn y bwyd yn glir, ynghyd ag enwau clir, neu groesgyfeiriadau priodol eraill ar gynwysyddion bwyd;
- cyflwynir gwybodaeth ysgrifenedig am alergenau i'r cwsmer, gan aelod o staff y busnes sy'n dosbarthu'r bwyd ynghyd â modd i gysylltu'r wybodaeth ysgrifenedig yn glir â phob eitem fwyd.

Rhan 3: Canllawiau i fusnesau sy'n darparu bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol

86. Mae p'un a yw bwyd yn cael ei becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS) yn dibynnu ar p'un a yw'n cael ei becynnu, a ble a phryd y mae'n cael ei becynnu mewn perthynas â'r pwynt y caiff ei gynnig i'w werthu.

87. Mae'r gofynion penodol yn seiliedig ar yr erthyglau canlynol:

- Erthygl 8 ar gyfrifoldebau
- Erthygl 9 ar fanylion gorfodol (gweler tudalennau 10 i 11 am restr o'r 14 alergen)
- Erthyglau 12 a 13 ar argaeledd a chyflwyniad manylion gorfodol
- Erthygl 21 ar labelu rhai sylweddau neu gynhyrchion sy'n achosi alergeddau neu anoddefiadau
- Erthygl 14 ar werthu o bell

88. Mae'r wybodaeth isod yn cynnwys canllawiau ac enghreifftiau o arfer gorau ar ddarparu gwybodaeth am alergenau ar gyfer bwyd PPDS. Daw'r rheolau newydd ar gyfer bwyd PPDS i rym ar 1 Hydref 2021.

Arfer Gorau

Dylai busnesau bwyd ystyried y bwydydd y maent yn eu pecynnu cyn i'r broses werthu ddechrau, er mwyn gwirio a yw'r gofynion hyn yn berthnasol.

89. Mae bwyd PPDS yn fwyd sy'n cael ei becynnu cyn ei gynnig i'w werthu gan yr un busnes bwyd i'r defnyddiwr terfynol:

- i) ar yr un safle; neu
- ii) yn yr un adeilad⁸; neu

⁸ Yn yr achos hwn mae 'adeilad' yn cyfeirio at gyfdeilad (*building complex*) fel canolfan siopa neu derfynfa maes awyr lle mae'r un busnes bwyd yn gweithredu o fwy nag un uned yn y cyfdeilad.

- iii) ar safle arall os yw'r bwyd yn cael ei werthu o safle symudol a/neu safle dros dro (fel pebyll mawr, stondinau marchnad, cerbydau gwerthu symudol) ac yn cael ei werthu gan yr un busnes bwyd a wnaeth ei becynnu.

90. Ystyr 'wedi'i becynnu ymlaen llaw' yn Erthygl 2(2)(e) y FIC yw 'unrhyw eitem unigol i'w chyflwyno i'r defnyddiwr terfynol ac i arlwywyr mawr, sy'n cynnwys bwyd a'r deunydd pecynnu y rhoddwyd y bwyd ynddo cyn ei gyflwyno i'w werthu, p'un a yw deunydd pecynnu o'r fath yn amgáu'r bwyd yn llwyr neu'n rhannol yn unig, ond ym mhob achos yn y fath fodd fel na ellir newid y cynnwys heb agor neu newid y deunydd pecynnu. Nid yw 'bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw' yn golygu bwyd sydd wedi'i becynnu ar y safle gwerthu ar gais y defnyddiwr neu wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol' (Cyfieithiad o'r ddeddfwriaeth Saesneg wreiddiol)

Ffigur 3 – Beth yw bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol (bwyd PPDS)?

Er mwyn i fwyd fod yn PPDS, rhaid iddo fodloni pob un o'r tri maen prawf canlynol:

(1) A yw'r bwyd yn cael ei gyflwyno i'r defnyddiwr mewn deunydd pecynnu*?

Nac ydy → bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw yw hwn

↓ **Ydy**

Mae'r bwyd “wedi'i becynnu” ✓

(2) A yw'n cael ei becynnu cyn i'r defnyddiwr ei ddewis neu ei archebu?

Nac ydy → bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw yw hwn

↓ **Ydy**

Mae'n fwyd “wedi'i becynnu ymlaen llaw” ✓

(3) A yw'n cael ei becynnu yn yr un lle ac y mae'n cael ei werthu?**

Nac ydy → bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw yw hwn

↓ **Ydy**

Mae'r bwyd wedi'i “becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol” ✓

Os mai “Ydy” yw'r atebion i'r tri chwestiwn uchod, mae'n fwyd PPDS.

Gofynion Gwybodaeth Labelu Alergenau Bwyd – Canllawiau Technegol yr ASB – Mehefin 2020

Nodiadau

* Un eitem (y bwyd a'i ddeunydd pecynnu) a gyflwynir i'r defnyddiwr. Mae'r bwyd wedi'i amgáu'n llwyr neu'n rhannol ac ni ellir ei addasu heb agor neu newid y deunydd pecynnu. Mae bwyd mewn deunydd pecynnu o'r fath sy'n cael ei werthu i fusnesau eraill yn fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw ac mae'n rhaid labelu unrhyw alergenau sydd ynddo. (Gweler Erthygl 2(2)(e) y FIC).

** Bwyd (a) wedi'i becynnu gan yr un busnes bwyd ar yr un safle ag y mae'n cael ei werthu neu (b) ei werthu o safle dros dro neu symudol (fel tryc bwyd neu stondin farchnad) gan yr un busnes bwyd a'i becynnodd.

Enghraifft

Mae bwyd PPDS yn cynnwys:

- Brechdanau sy'n cael eu rhoi mewn deunydd pecynnu gan y busnes bwyd a'u gwerthu o'r un adeilad.
- Caffi sy'n rhoi samplau wedi'u pecynnu am ddim o ystod newydd o gacennau a baratowyd ganddynt ar yr un safle.
- Bwyd wedi'i becynnu ac yna ei gludo gan yr un gweithredwr i stondin farchnad i'w werthu.
- Cigydd sy'n gwneud byrgyrs neu selsig sydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw i'w gwerthu ar yr un safle.
- Bwydydd wedi'u pecynnu gan fusnes bwyd i'w gwerthu yn ei unedau manwerthu sydd wedi'u lleoli yn yr un cyfadeilad â'r safle lle cafodd y bwyd ei becynnu fel gorsaf reilffordd, ysbyty, prifysgol neu barc gwyliau.

Mewn amgylchedd manwerthu fel archfarchnad, byddai'r enghreifftiau canlynol hefyd yn cael eu hystyried i fod yn gynhyrchion sydd wedi'u pecynnu ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol, **ar yr amod eu bod yn cael eu pecynnu ar y safle lle maent yn cael eu gwerthu cyn iddynt gael eu cynnig i'w gwerthu:**

- Pizzas ffres o'r cownter deli er enghraifft ar hambwrdd cardbord ac wedi'i lapio mewn plastig;
- Salad mewn bocsys;
- Bwydydd poeth fel cyw iâr rotisserie;
- Bwydydd sy'n cael eu pwyso a'u pecynnu ymlaen llaw fel caws neu gig o gownter delicatessen neu nwyddau wedi'u pobi o fecws yn y siop

91. Ystyrir bod bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw pan gaiff ei roi mewn deunydd pecynnu cyn ei gyflwyno i'w werthu a:

- phan fo naill ai wedi'i amgáu'n rhannol neu'n llwyr yn y deunydd pecynnu;
- ni ellir ei newid heb agor neu newid y deunydd pecynnu;
- mae'n barod i'w werthu i'r defnyddiwr terfynol.

92. Byddai unrhyw fwyd sy'n cael ei becynnu ar y safle gan yr un busnes bwyd wrth ragweld archeb, cyn ei gynnig i'w werthu, yn cael ei ystyried yn fwyd PPDS. Gall hyn gynnwys bwyd y mae'r defnyddiwr yn ei ddewis ei hun o gabinet oeri neu y mae'n rhaid iddo ei gael gan aelod o staff.

Enghraifft

Efallai y bydd rhywfaint o fwyd cyflym yn cael ei becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol os yw wedi'i becynnu gan yr un busnes cyn ei gynnig i'w werthu gan ragweld archeb, er enghraifft byrgyr wedi'i lapio neu gyw iâr wedi'i ffrio mewn bocws wedi'i osod o dan lamp poeth ac ni ellir newid y cynnwys heb agor y deunydd pecynnu.

93. Nid yw bwyd sy'n cael ei roi mewn deunydd pecynnu ar ôl i ddefnyddiwr ei archebu (er enghraifft brechdan neu fyrgyr wedi'i baratoi'n ffres sy'n cael ei baratoi a'i lapio ar ôl cymryd archeb) yn fwyd PPDS. Er bod yr eitemau hyn wedi'u pecynnu, nid ydynt yn cael eu pecynnu cyn eu cynnig i'w gwerthu ac felly ni ellir eu pecynnu ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol. Mae'r un rheolau yn berthnasol i'r bwydydd hyn ag sy'n berthnasol i fathau eraill o fwydydd heb eu pecynnu fel prydau bwyd sy'n cael eu gweini mewn bwyty.

94. Nid yw bwyd PPDS yn cynnwys bwyd nad oes ganddo ddeunydd pecynnu, neu mae'n cael ei becynnu mewn ffordd y gellir newid y bwyd heb agor na newid y deunydd pecynnu (er enghraifft ci poeth wedi'i weini ar hambwrdd cardfwrdd.)

95. Nid yw bwyd PPDS yn cynnwys bwyd sy'n cael ei becynnu gan un busnes a'i gyflenwi i fusnes arall i'w werthu (er enghraifft pastai porc wedi'i becynnu gan fusnes "A" a'i werthu gan fusnes "B" mewn marchnad ffermwr.) Bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw yw hwn.

Rhestr o fanylion gorfodol ar gyfer bwyd PPDS

96. Rhaid i bob bwyd PPDS gynnwys ar y pecyn⁹, neu ar label sydd ynghlwm â'r pecyn:

- enw'r bwyd;

⁹ Gweler Erthygl 16(2) o Reoliad (UE) Rhif 1169/2011 am y gofynion sy'n berthnasol i ddeunydd pecynnu neu gynnwysyddion sydd ag arwynebedd llai na 10cm², i'r graddau y mae'n ymwneud â'r manylion sy'n ofynnol gan Erthygl 9(1)(b).

- rhestr gynhwysion¹⁰ gan gynnwys cynhwysion alergenau. Rhaid datgan a phwysleisio'r cynhwysion alergenau a geir yn y bwyd bob tro y maent yn ymddangos ar y rhestr gynhwysion. Er enghraifft, gellir rhestru'r alergenau yn y bwyd mewn print trwm, mewn priflythrennau, mewn lliwiau cyferbyniol neu gellir eu tanlinellu.

97. Mae canllawiau manwl ar sut y mae'n rhaid pwysleisio ac enwi pob cynhwysyn alergenau sydd wedi'u nodi yn Atodiad II y FIC ar fwyd PPDS wedi'u hamlinellu yn y canllawiau hyn ym mharagraffau 29 i 66.

Gwerthu o bell (Erthygl 14)

98. Bydd angen i weithredwyr busnesau bwyd sy'n gwerthu bwyd PPDS o bell (er enghraifft fel busnesau bwyd sy'n cynnig prynu dros y ffôn/rhyngwryd) sicrhau bod gwybodaeth orfodol am alergenau ar gael i'r defnyddiwr (am ddim) cyn iddynt brynu'r cynnyrch ai bod hefyd ar gael wrth i'r cynnyrch gael ei ddosbarthu.

99. Nid yw'r gofyniad newydd am restr gynhwysion yn berthnasol i fwyd PPDS a werthir ar-lein, dros y ffôn neu trwy'r post i'r defnyddiwr yn unig. Mae hyn gan nad yw'r rheolau cenedlaethol sy'n berthnasol i ddarparu gwybodaeth am fwyd ar gyfer bwyd heb ei becynnu llaw, gan gynnwys PPDS, yn berthnasol i fwyd a werthir o bell. Felly, y rheolau cymwys ar gyfer yr holl fwyd a werthir o bell yw'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn Erthygl 14 y FIC. Fodd bynnag, rhaid i fwyd PPDS a werthir yn y ffordd hon barhau i fod â gwybodaeth am alergenau ar gael am ddim i'r cwsmer cyn iddo brynu'r cynnyrch a hefyd pan gaiff y cynnyrch ei ddosbarthu. Beth bynnag yw'r dull cyflwyno a ddewisir, rhaid i weithredwr y busnes bwyd sicrhau bob amser bod yr wybodaeth am alergenau yn gyfredol ac yn gywir.

¹⁰ Gweler y Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (FIR) i weld rhagor o reolau ar fformat gofynnol y rhestr gynhwysion. Gweler Erthygl 19 o Reoliad (UE) Rhif 1169/2011 am fwydydd nad oes rhaid iddynt gael rhestr gynhwysion.

Gorfodi'r mesurau

Cyfrifoldebau'r awdurdod lleol

100. Yn y DU, mae swyddogion bwyd awdurdodedig mewn awdurdodau lleol yn gyfrifol am reolaethau swyddogol sy'n ymwneud â rheolau alergenau.

101. Yn Lloegr, lle mae cyfrifoldeb gorfodi deuol mewn rhai meysydd, mae'n ddyletswydd ar yr haen gyntaf (Cynghorau Sir) i orfodi (Rheoliad 9(1) y FIR) ac mae gan gynghorau ail haen y pŵer i orfodi (Rheoliad 9(2) y FIR). Er nad oes angen gwneud trefniadau i roi pwerau i swyddogion gorfodi hylendid bwyd mewn cynghorau ail haen, anogir swyddogion bwyd awdurdodedig i drafod a dod i ddealltwriaeth ar sut i orfodi gofynion alergenau ar lefel lleol.

Cosbau a throseddau

102. Mae methu â chydymffurfio â gofynion darpariaethau'r FIC a nodir yn Rheoliad 10(2) y FIR fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio) (Lloegr) 2019 neu Reoliadau cyfatebol yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon ar labelu cynhwysion alergenau yn drosedd, a gall arwain at ddwyn erlyniad troseddol yn erbyn gweithredwr busnes bwyd. Mae'r sefyllfa hon yr un peth mewn perthynas â methiant i gydymffurfio â Rheoliad 5(5) neu Reoliad 5A(1)(a) y FIR sy'n ymwneud â darparu gwybodaeth am alergenau ar gyfer bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw a bwyd PPDS ac ati mewn ffordd wahanol i'r hyn a nodir yn y FIC.

103. Bydd unigolyn y caiff ei ddal yn euog o drosedd alergenau o dan FIR 2014 yn agored i ddirwy ddiderfyn. Ynadon fyddai'n penderfynu ar swm y ddirwy fesul achos.

Rhestr o dermau sy'n codi yn y canllawiau hyn

Alergedd Bwyd: Adwaith andwyol i fwyd sy'n cynnwys y system imiwnedd. Gall fod yn gyflwr sy'n peryglu bywyd. Gall symptomau ymddangos o fewn munudau, neu hyd at sawl awr ar ôl i rywun fwyta bwyd maent ag alergedd iddo. Ni ellir gwella alergedd bwyd. Mae'n rhaid i unigolyn sydd ag alergedd osgoi'r bwyd sy'n ei wneud yn sâl.

Alergen Bwyd: Dyma'r sylwedd mewn bwyd a all achosi adwaith alergaidd. Fel arfer, proteinau yw'r rhain ac mewn rhai pobl, mae'r system imiwnedd yn credu bod alergenau yn estron neu'n beryglus. Yr ymateb imiwn i'r proteinau alergenaidd hyn yw'r hyn sy'n arwain at adweithiau alergaidd. Mae'r UE yn nodi 14 bwyd penodol sydd o bwys i iechyd y cyhoedd (alergenau bwyd cryfaf ac amlycaf yn Ewrop) a restrir yn Atodiad II FIC yr UE.

Anoddefiad bwyd: Nid yw anoddefiadau bwyd yn ymwneud â'r system imiwnedd ac nid ydynt yn peryglu bywyd fel arfer. Fodd bynnag, gallant wneud rhywun deimlo'n sâl iawn neu effeithio ar eu hiechyd hirdymor. Mae enghreifftiau o anoddefiad bwyd yn cynnwys anoddefiad i lactos ac i glwten.

Arlwywr mawr: Diffinnir hyn yn Erthygl 2(2)(d) y FIC fel (o'i gyfieithu) 'unrhyw sefydliad (gan gynnwys cerbyd neu stondin sefydlog neu symudol), megis bwytai, ffreuturau, ysgolion, ysbytai a mentrau arlwyyo lle, wrth weithredu, mae bwyd yn cael ei baratoi ymlaen llaw yn barod i'w fwyta gan y defnyddiwr terfynol'.

Busnes bwyd: Diffinnir y term hwn yn Rheoliad (CE) Rhif 178/2002 (Cyfraith Bwyd Cyffredinol) fel (o'i gyfieithu) 'unrhyw ymgymeriad (*undertaking*), boed er elw neu beidio neu p'un a yw'n gyhoeddus neu'n breifat, sy'n cyflawni unrhyw un o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag unrhyw gam cynhyrchu, prosesu a dosbarthu bwyd'.

Bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw: Unrhyw fwyd a gyflwynir i'r defnyddiwr terfynol neu i arlwywr mawr nad yw'n dod o fewn y diffiniad o 'fwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw' am unrhyw reswm gan gynnwys bwyd nad yw o fewn unrhyw ddeunydd pecynnu, neu fwyd wedi'i becynnu ar gais y defnyddiwr a bwyd PPDS.

- Mewn amgylchedd manwerthu, mae hyn yn debygol o fod yn berthnasol i fwyd sy'n cael ei werthu'n rhydd o gownter delicatessen (er enghraifft, cigoedd oer, caws, quiche, pasteiod a dipiau), pizza ffres, bariau salad, bara neu doesenni (*pastries*) a werthir heb eu lapio mewn siopau neu gownteri bara, cig o'r cigydd ac ati.
- Mewn amgylchedd arlwyyo, mae hyn yn debygol o fod yn berthnasol i fwyd na chaiff ei werthu wedi'i becynnu ymlaen llaw, er enghraifft bwyd o siop tecawê, neu brydau a weinir mewn ffreutur neu fwyty.

Bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw: Caiff hwn ei ddiffinio yn Rheoliad (UE) Rhif 1169/2011 (Erthygl 2(2)(e)) fel (o'i gyfieithu) 'unrhyw eitem unigol i'w chyflwyno i'r defnyddiwr terfynol ac i arlwywyr mawr, sy'n cynnwys bwyd a'r deunydd pecynnu y'i

rhoddwyd ynddo cyn ei chyflwyno i'w gwerthu, p'un a yw deunydd pecynnu o'r fath yn amgáu'r bwyd yn llwyr neu'n rhannol yn unig, ond ym mhob achos yn y fath fodd fel na ellir newid y cynnwys heb agor na newid y deunydd pecynnu. Nid yw 'bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw' yn golygu bwydydd sydd wedi'u pecynnu ar y safle gwerthu ar gais y defnyddiwr neu wedi'u pecynnu ymlaen llaw i'w gwerthu'n uniongyrchol.'

Ystyrir bod bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw pan gaiff ei roi mewn deunydd pecynnu cyn ei gyflwyno i'w werthu a:

- phan fo naill ai wedi'i amgáu'n rhannol neu'n llwyr yn y deunydd pecynnu;
- ni ellir ei newid heb agor neu newid y deunydd pecynnu;
- ei fod yn barod i'w werthu i'r defnyddiwr terfynol neu i arlwywr mawr

Bwyd wedi'i becynnu ymlaen llawn i'w werthu'n uniongyrchol (PPDS): Mae bwyd sy'n cael ei becynnu ymlaen llaw cyn cael ei gynnig i'w werthu gan yr un busnes bwyd i'r defnyddiwr terfynol:

- i) ar yr un safle; neu
- ii) yn yr un adeilad¹¹; neu
- iii) ar safle arall os yw'r bwyd yn cael ei werthu o safle symudol a/neu safle dros dro (fel pebyll mawr, stondinau marchnad, cerbydau gwerthu symudol) ac yn cael ei werthu gan yr un busnes bwyd a wnaeth ei becynnu.

Nid yw bwyd PPDS yn cynnwys bwyd wedi'i becynnu ar gais defnyddiwr, bwyd nad yw mewn deunydd pecynnu neu fwyd mewn deunydd pecynnu y gellir ei newid heb agor na newid y deunydd pecynnu.

Clefyd Seliag: Mae hwn yn glefyd hunan-imiwn a achosir gan adwaith niweidiol i fwyta glwten, sef protein sydd i'w ganfod mewn grawnfwydydd, yn bennaf gwenith, rhyg (rye), ceirch, gwenith yr Almaen (spelt), kamut neu straeniau hybrid ohonynt. Cadw at ddeiet heb glwten yw'r driniaeth feddygol ar ei gyfer ac felly mae angen addasu cryn dipyn ar y deiet os oes gennych glefyd seliag.

Defnyddiwr terfynol: Diffinnir hwn yn Erthygl 3 (18) o Reoliad (CE) Rhif 178/2002 fel 'defnyddiwr terfynol bwyd na fydd yn defnyddio'r bwyd fel rhan o unrhyw weithrediad neu

¹¹ Yn yr achos hwn mae 'adeilad' yn cyfeirio at gyfateilad (*building complex*) fel canolfan siopa neu derfynfa maes awyr lle mae'r un busnes bwyd yn gweithredu o fwy nag un uned yn y cyfateilad.

weithgarwch busnes'. Fel arfer, y defnyddiwr terfynol fydd yr unigolyn a fydd yn bwyta neu'n yfed y bwyd neu'r ddiod a ddarperir gan y busnes bwyd.

Gweithredwr Busnes Bwyd: Diffinnir y term hwn yn Rheoliad (CE) Rhif 178/2002 (Erthygl 3(3)) (Cyfraith Bwyd Cyffredinol) fel (o'i gyfieithu) 'y personau naturiol neu gyfreithiol sy'n gyfrifol am sicrhau bod gofynion cyfraith bwyd yn cael eu bodloni o fewn y busnes bwyd o dan eu rheolaeth'.

Gwerthu o bell: Mae hyn yn cyfeirio at werthu a phrynu nwyddau neu wasanaethau (at ddibenion y nodiadau canllaw hyn, bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw a bwyd heb ei becynnu ymlaen llaw) heb i'r defnyddiwr a'r cyflenwr fod yn bresennol ar yr un pryd i gwblhau'r contract gwerthu; er enghraifft gwerthu bwyd dros y rhyngrwyd (siopa ar y we, agregwyr tecawê ar-lein ac ati), archeb bost, ffôn neu deledu.

Cyfeiriadau ac Adnoddau

104. Mae cyngor pellach ar labelu alergenau bwyd ar gael ar wefan yr Asiantaeth: www.food.gov.uk/cy/canllawiau-busnes/canllawiau-ar-labelu-alergenau-ar-gyfer-cynhyrchwyr-bwyd
105. Adnoddau alergenau'r ASB drwy www.food.gov.uk/cy/canllawiau-busnes/canllawiau-ar-alergenau-ar-gyfer-busnesau-bwyd
106. Gellir dod o hyd i bosteri alergedd a chardiau cogydd yma: <https://www.food.gov.uk/cy/canllawiau-busnes/canllawiau-ar-alergenau-ar-gyfer-busnesau-bwyd>
107. Gellir gweld hyfforddiant ar-lein am ddim ar y Rheoliad Gwybodaeth am Fwyd yn ei gyfanrwydd yma: <http://labellingtraining.food.gov.uk/>
108. Mae'r ASB wedi cynhyrchu modiwlau hyfforddi ar-lein am ddim i helpu swyddogion gorfodi a busnesau i ddeall labelu alergenau bwyd a labelu yn gyffredinol o dan y FIC. Gellir gweld hyfforddiant alergedd ar-lein am ddim yma: <http://allergytraining.food.gov.uk/>
109. Canllawiau Consortiwm Manwerthu Prydain a'r Ffederasiwn Bwyd a Diod ar Labelu Alergenau: <http://www.reading.ac.uk/foodlaw/pdf/uk-12024-BRC-FDF-Allergen-Labeling.pdf>
110. Canllawiau'r Ffederasiwn Bwyd a Diod ar Honiadau Rhydd Rhag Alergenau (Allergen Free) a Figan [www.fdf.org.uk/corporate_pubs/dfd-guidance-allergen-free-and-vegan-claims.pdf].
111. Canllawiau Labelu Glwten y Ffederasiwn Bwyd a Diod: Arfer Gorau ar gyfer Bwydydd wedi'u Pecynnu Ymlaen Llaw sy'n Cynnwys neu'n Eithrio Grawnfwydydd sy'n Cynnwys Glwten (Mehefin 2019): www.fdf.org.uk/corporate_pubs/FDF-gluten-labelling-guidance.pdf
112. Canllawiau Consortiwm Manwerthu a Bwyd a Diod Prydain ar Honiadau "Rhydd Rhag" Alergenau (Tachwedd 2015): www.fdf.org.uk/corporate_pubs/brc-free-from-guidance.pdf

Deddfwriaeth Berthnasol

113. Rheoliad (UE) Rhif 1169/2011 ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr (“FIC”): www.legislation.gov.uk/eur/2011/1169/contents

114. Rheoliad (UE) Rhif Rhif 828/2014, ar y gofynion ar gyfer darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr am absenoldeb glwten neu pan fo llai o glwten mewn bwyd: www.legislation.gov.uk/eur/2014/828/contents

115. Rheoliad (CE) Rhif 178/2002 yn nodi egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd (Cyfraith Bwyd Cyffredinol): www.legislation.gov.uk/eur/2002/178/contents

116. Deddf Diogelwch Bwyd 1990 a diwygiadau dilynol: www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/16/contents; Gorchymyn Diogelwch Bwyd (Gogledd Iwerddon) 1991 a diwygiadau dilynol www.legislation.gov.uk/nisi/1991/762/contents/made

117. Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd 2014 (“FIR”): www.legislation.gov.uk/uksi/2014/1855/pdfs/uksi_20141855_en.pdf

118. Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014: http://www.legislation.gov.uk/wsi/2014/2303/pdfs/wsi_20142303_mi.pdf

119. Y Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Gogledd Iwerddon) 2014: http://www.legislation.gov.uk/nisr/2014/223/pdfs/nisr_20140223_cy.pdf

120. Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio) (Lloegr) 2019: www.legislation.gov.uk/uksi/2019/1218/pdfs/uksi_20191218_en.pdf

121. Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020: www.legislation.gov.uk/wsi/2020/295/pdfs/wsi_20200295_mi.pdf

122. Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygiad Rhif 2) (Gogledd Iwerddon) 2020: www.legislation.gov.uk/nisr/2020/80/pdfs/nisr_20200080_en.pdf

123. Rheoliad (UE) Rhif 1308/2013 yn sefydlu trefniant cyffredin o'r marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol: www.legislation.gov.uk/eur/2013/1308/contents

Adolygu

124. Rydym ni'n anelu at sicrhau bod ein holl ganllawiau yn gyfredol, ac felly rydym ni'n eu diweddarau yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol. Dyddiad adolygu nesaf y canllawiau hyn yw mis Rhagfyr 2021.

125. Rydym ni'n croesawu eich adborth ar y canllawiau hyn, gan gynnwys adroddiadau am unrhyw ddolenni sydd wedi torri neu gynnwys sydd wedi dyddio.

Manylion cysylltu

126. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru

Kerys James-Palmer

E-bost: kerys.james-palmer@food.gov.uk

Asiantaeth Safonau Bwyd Lloegr

Hannah Rose (Tîm Alergeddau, Anoddefiadau a Gorsensitifrwydd i Fwyd)

E-bost: foodintoleranceenquiries@food.gov.uk

Asiantaeth Safonau Bwyd yng Ngogledd Iwerddon

Richard Annett (Arweinydd Safonau Bwyd)

E-bost: richard.annett@food.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. Mewn manau lle'r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd gofyn i chi geisio caniatâd y rheiny sy'n dal yr hawlfraint dan sylw.

I gael rhagor o wybodaeth ac i weld y drwydded hon:

- ewch i wefan yr [Archifau Cenedlaethol](#)
- anfonwch e-bost at psi@nationalarchives.gov.uk
- ysgrifennwch at: Tîm Polisi Gwybodaeth/Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadua am y cyhoeddiad hwn, cysylltwch â'r [Asiantaeth Safonau Bwyd](#).



Dilynwch ni ar Twitter:
Cymru: [@fsacymru/](#) [@fsawales](#)
Cenedlaethol: [@foodgov](#)



Dewch o hyd i ni ar Facebook:
[facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd](https://www.facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd)